## Gall staff ELSA gefnogi gyda

**Colled a phrofedigaeth**

**Hunan-barch**

**Sgiliau cymdeithasol**

**Deall ac adnabod emosiy-nau**

**Cyfeillgarwch**

**Pryderon**

**Technegau ymlacio**

**Rheoleiddio emosiynau**

**A llawer mwy!**



## Beth yw'r buddion?

Mae plant yn dysgu'n well pan mae eu hanghenion emosiynol wedi eu cwrdd. Mae hyn yn galluogi nhw i ganolbwyntio yn yr ysgol.

**Mae sesiynau ELSA yn gallu helpu dysgwyr i:**

- Ddatblygu strategaethau i gyfathrebu eu teimladau a meddyliau.
- Gyfathrebu gyda phobl eraill.
- Ddatblygu hunan ymwybyddiaeth.
- Ymdopi'n well yn yr ysgol a datblygu hunan-werth.

# ELSA

## Cymorth Llythrennedd Emosiynol

---

**Canllawiau i Rieni**

Cyngor Abertawe Swansea Council


ELSA NETWORK REGISTERED

## Beth yw ELSA?

ELSA yw aelod o staff sydd wedi ei hyfforddi i roi cymorth i ddysgwyr i ddatblygu llythrennedd emosiynol a sgiliau eraill.

Mae staff ELSA yn derbyn hyfforddiant trylwyr a goruchwiliaeth barhaus gyda seicolegwyr addysg.

**Mrs Bassett** yw ELSA ein hysgol.




## Beth yw sesiwn ELSA?

Mae cymorth ELSA fel arfer yn cynnwys sesiynau wythnosol (tua 6-12 wythnos) sydd wedi'u trefnu o flaen llaw. Mae pob sesiwn wedi ei addasu i gwrdd ag anghenion y disgybl.

## Beth yw llythrennedd emosiynol?

Deall ac ymdopi gyda theimladau

Datblygu hunan-barch a pherthnasau cadarnhaol ag eraill.

Datblygu strategaethau i reoleiddio emosiynau a ffocysu ar ddysgu.

Enghreifftiau o'r hyn a all ddigwydd mewn sesiwn ELSA:

- rhannu teimladau
- Ymarfer technegau ymlacio
- gemau a phosau
- storiau cymdeithasol
- datganiadau positif
- gweithgareddau i ddatblygu hunan-ddealltwriaeth
- Celf a chrefft
- Gweithgareddau rheoleiddio